Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Ponthenri
# Neuadd Gymuned Ponthenri
# Bargoed Terrace
# Ponthenri
# Llanelli
# SA15 4PW

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 29/12/2017**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Ponthenri, sydd yn cwrdd yn Neuadd Gymuned Ponthenri, yn awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin.  Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i dderbyn 16 o blant ac mae ymarferwyr yn darparu addysg y blynyddoedd cynnar i 8 plentyn sydd yn cael eu hariannu.  Mae'r lleoliad ar agor am bump bore'r wythnos.

Mae bron pob un o'r plant o gefndir gwyn Prydeinig a daw lleiafrif o gartrefi sy'n siarad Cymraeg.  Ychydig iawn o blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r lleoliad yn cyflogi tri aelod o staff.  Penodwyd yr arweinydd ac un o'r ymarferwr i'w swyddi ym mis Mai 2017.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym mis Tachwedd 2015 a gan Estyn ym mis Tachwedd 2010.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad y lleoliad yn ddigonol oherwydd bod:

- mwyafrif o'r plant yn gwneud cynnydd priodol yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad ac yn cyflawni safonau cadarn yn y rhan fwyaf o'r meysydd dysgu
- medrau llafar llawer o'r plant yn dda, maent yn cyfathrebu'n hyderus yn y Gymraeg ac yn siarad yn frwdfrydig am eu profiadau
- mwyafrif o'r plant yn datblygu eu medrau rhifedd yn briodol gan wneud cynnydd addas o'u mannau cychwyn
- llawer o'r plant yn ddysgwyr hapus a hyderus sy'n cyrraedd y lleoliad gyda chwilfrydedd ac agwedd iach tuag at ddysgu
- mwyafrif o'r plant yn dangos parch tuag at ei gilydd, yn aros er mwyn cymryd tro ac yn rhannu offer o'u gwirfodd
- ymarferwyr yn hyrwyddo addysgu cadarn trwy sicrhau bod cyfleoedd addas i blant chwarae, ymchwilio a darganfod, fel rhan annatod o fywyd pob dydd y lleoliad
- ymarferwyr yn modelu'r iaith Gymraeg yn naturiol ac effeithiol sydd yn cael effaith gadarnhaol ar safonau llafar llawer o'r plant

Fodd bynnag:

- mae medrau gwrando lleiafrif o'r plant yn wan ac maent yn cael anhawster canolbwyntio wrth wrando ar stori neu gyflwyniad i dasg
- nid yw medrau llythrennedd a rhifedd mwyafrif o'r plant yn datblygu'n ddigon cadarn, yn enwedig y rhai mwy abl
- mae lefel ymrwymiad plant mwy abl yn isel, ac o ganlyniad, nid ydynt yn defnyddio'u medrau meddwl a datrys problemau yn ddigon effeithiol er mwyn herio eu hunain yn hyderus ar draws y meysydd dysgu
- nid yw medrau annibynnol y rhan fwyaf o'r plant yn datblygu'n ddigon cadarn ac ychydig iawn yn unig sydd yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau eu hunain yn ystod y gweithgareddau
- nid yw cynlluniau'r ymarferwyr yn sicrhau bod bob plentyn yn cael cyfleoedd cadarn i ddatblygu medrau yn gydlynol ar draws y cwricwlwm
- nid yw'r ymarferwyr yn defnyddio gwybodaeth asesu ac olrhain cynnydd yn ddigon effeithiol er mwyn herio pob plentyn yn fwriadus a chynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn ddigonol oherwydd bod:

- gan yr arweinydd newydd weledigaeth glir sy'n sicrhau cyfeiriad cadarn i waith y lleoliad
- yr arweinydd yn gweithio'n agos gyda'r ymarferwyr i greu ethos addas, sy'n annog ac yn gwerthfawrogi gwaith tîm
- partneriaeth agos yn bodoli rhwng y lleoliad, athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin sy'n arwain at nifer o weithdrefnau newydd buddiol sy'n cychwyn symud y lleoliad ymlaen
- dealltwriaeth yr arweinydd o gryfderau a gwendidau'r lleoliad yn datblygu'n briodol
- y pwyllgor rheoli yn gefnogol iawn i waith y lleoliad
- cynllun gwella'r lleoliad yn ddogfen ddefnyddiol sy'n ystyried mwyafrif o'r meysydd sydd angen eu gwella ar gyfer addysgu a chynllunio'n fwriadus
- gan y lleoliad bartneriaeth gadarn gyda rhieni a gofalwyr sy'n gwerthfawrogi ansawdd y gofal a ddangosir gan ymarferwyr tuag at eu plant.

Fodd bynnag:

- nid yw'r arweinyddiaeth yn cael effaith ddigon cadarn ar wella ansawdd agweddau pwysig o'r ddarpariaeth
- nid yw'r prosesau hunanarfarnu yn gwneud digon o ddefnydd o arsylwadau uniongyrchol er mwyn gwerthuso safonau a medrau plant ar draws y meysydd dysgu
- nid yw'r cynllun datblygu yn cynnwys dangosyddion llwyddiant mesuradwy er mwyn gwerthuso effaith y camau gweithredu ar gyrhaeddiad a chynnydd y plant
- nid yw aelodau'r pwyllgor rheoli yn cwrdd yn ddigon rheolaidd er mwyn monitro effaith y ddarpariaeth yn fanwl i sicrhau gwelliannau ym medrau'r plant

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod profiadau dysgu yn darparu her cyson a chadarn er mwyn codi safonau y plant mwy abl

A2 Gwella gallu'r plant i wneud penderfyniadau a chymryd cyfrifoldeb am beth maent yn ei ddysgu, er mwyn datblygu'n ddysgwyr annibynnol llwyddiannus

A3 Sicrhau bod cynlluniau'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn systematig ar draws y meysydd dysgu

A4 Gwneud defnydd mwy effeithiol o wybodaeth asesu er mwyn cynllunio'r camau nesaf yn addysg y plant

A5 Sicrhau bod trefniadau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant yn canolbwyntio'n glir ar ddeilliannau plant

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd Cylch Meithrin Ponthenri yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae safonau llawer o'r plant wrth ddechrau yn y lleoliad yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Mae'r mwyafrif yn gwneud cynnydd priodol yn ystod eu cyfnod yno ac yn cyflawni safonau cadarn yn y rhan fwyaf o'r meysydd dysgu.

Mae medrau llafar llawer o'r plant yn dda, maent yn cyfathrebu'n hyderus yn y Gymraeg ac yn siarad yn frwdfrydig am eu profiadau. Er enghraifft, maent yn defnyddio ymadroddion ac ansoddeiriau priodol wrth drafod y conceri a'r pwmpenni yn y gornel ymchwilio. Mae'r mwyafrif yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llafar ac yn dilyn cyfarwyddiadau a chwestiynau gyda hyder cynyddol. Mae gan lawer o blant ymwybyddiaeth addas o hwiangerddi a chaneuon Cymreig, ac maent yn gwneud ceisiadau cyson i'w canu. Mae medrau gwrando mwyafrif o'r plant yn datblygu'n briodol ac mae'r plant hyn yn awyddus iawn i eistedd yn llonydd, er enghraifft er mwyn clywed stori neu ymateb i gyfarwyddiadau Wendi'r Wiwer. Fodd bynnag, mae medrau gwrando lleiafrif o'r plant yn wan ac maent yn cael anhawster canolbwyntio yn enwedig yn ystod cyflwyniad i dasg. Maent yn ymuno'n or-frwdfrydig yn ystod y cyfnodau hyn, yn torri ar draws ac yn aml yn anwybyddu cyfarwyddiadau'r oedolion.

Mae mwyafrif o'r plant yn dangos diddordeb mewn llyfrau ac yn cychwyn eu trin yn briodol fel darllenwyr gofalus, gan droi tudalennau'n gywir. Mae ychydig o'r plant mwy abl yn adnabod cymeriadau allweddol ac yn ailadrodd eu hoff storiâu gyda dealltwriaeth dda o ddilyniant. Mae rhan fwyaf o'r plant yn adnabod eu henw eu hunain ar ffurf ysgrifenedig yn ystod y cofrestru boreol. Mae ychydig o'r plant mwy abl yn ysgrifennu eu henwau'n llawn. Maent yn cychwyn dangos dealltwriaeth addas o swyddogaeth ysgrifennu, er enghraifft pan fyddant yn cymryd archebion yn y siop chwarae rôl. Mae mwyafrif o'r plant yn dechrau ffurfio llythrennau'r wyddor a rhifau'n annibynnol ac mewn ffurf lled adnabyddus. Mae'r mwyafrif yn cychwyn defnyddio ystod briodol o offer gwneud marciau gyda chymorth gan ymarferwyr. Maent yn datblygu rheolaeth gynyddol wrth wneud marciau gan ddefnyddio ystod eang o ddeunyddiau, er enghraifft wth dynnu lluniau â phensil o'r tri mochyn bach ar gyfer arddangosfa wal.

Mae mwyafrif o'r plant yn datblygu eu medrau rhifedd yn briodol ac yn gwneud cynnydd addas o'u mannau cychwyn, drwy ddefnydd ymarferol o rif a siâp. Er enghraifft, maent yn cyfri hyd at ddeg o ddail neu greaduriaid yr hydref ac yn grwpio ac enwi siapiau dau ddimensiwn yn ôl maint a lliw. Mae ychydig o blant yn cychwyn defnyddio offer priodol er mwyn datblygu dealltwriaeth addas o fondiau rhif syml hyd at 10. Mae'r mwyafrif yn defnyddio ystod addas o iaith fathemategol. Er enghraifft, maent yn disgrifio gwahanol deganau fel 'bach' a 'mawr' wrth chwarae gyda cheir ac wrth ddefnyddio blociau adeiladu. Fodd bynnag, nid yw medrau rhifedd y plant mwy abl yn datblygu'n ddigon cadarn ac nid ydynt yn dyfalbarhau yn ystod gweithgareddau rhifedd. Mae lefel eu hymrwymiad yn isel, ac o ganlyniad, nid ydynt yn defnyddio'u medrau meddwl a datrys problemau er mwyn herio eu hunain yn hyderus ar draws y meysydd dysgu.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) llawer o'r plant yn dda. Maent yn defnyddio camerau digidol a darganfyddwyr metel yn hyderus, yn gwrando ar storïau electronig ac yn adalw lluniau sydd wedi cael eu harbed ar lechen yn llwyddiannus.

Mae rhan fwyaf o'r plant yn ymgymryd yn frwdfrydig â'r gweithgareddau celf a ddarperir ar eu cyfer, ac mae eu medrau creadigol yn datblygu'n dda. Er enghraifft, maent yn creu clytwaith o ddraenog ac yn defnyddio gwlân cotwm i greu darlun o'r Ddafad Ddrwg. Fodd bynnag, ychydig iawn o'r plant yn unig sydd yn gwneud dewisiadau eu hunain yn ystod y gweithgareddau hyn ac yn datblygu'r gallu i weithio'n annibynnol.

**Lles: Digonol**

Mae llawer o blant yn ddysgwyr hapus a hyderus. Maent yn cyrraedd y lleoliad gyda chwilfrydedd ac agwedd iach tuag at ddysgu. Mae ganddynt berthnasoedd cynnes gyda'r ymarferwyr ac mae mwyafrif o'r plant yn uniaethu'n dda â'i gilydd. Maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig yn yr holl brofiadau a gynigir iddynt gan ofyn am gymorth pan fydd ei angen arnynt. Mae'r plant yn hyderus wrth ymgymryd â rôl 'helpwr heddiw' ac yn cyflawni tasgau syml. Fodd bynnag, mae lleiafrif o blant yn dangos lefelau isel o gymhelliant. Nid ydynt yn gwneud eu penderfyniadau eu hunain yn ddigon rheolaidd ac maent yn or-ddibynnol ar gymorth gan yr ymarferwyr.

Mae mwyafrif o'r plant yn dangos parch tuag at ei gilydd, yn aros eu tro, ac yn rhannu offer o'u gwirfodd. Mae'r plant hyn yn gwrando'n astud ar ei gilydd ac ar yr oedolion ac yn ymddwyn yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'r lleiafrif yn canolbwyntio ar dasgau ac maent yn aflonydd am gyfnodau estynedig, yn enwedig yn ystod gweithgareddau ffocws. Maent yn colli diddordeb yn hawdd, sydd yn cael effaith negyddol ar eu cynnydd ac ar eu gallu i gydweithio â'u ffrindiau.

Mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth dda o sut i gadw'n iach. Maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gweithgareddau i'w helpu i gadw'n heini, fel dawnsio yn y neuadd a phaentio gyda'u traed ar rolyn papur wal. Maent yn deall pwysigrwydd golchi dwylo yn drylwyr ac yn annibynnol cyn bwyta'u ffrwythau ac yfed diod. Mae ychydig o'r plant yn datblygu ymwybyddiaeth o'r angen i fwyta'n iach. Maent yn gwybod bod gor-fwyta rhai bwydydd yn afiachus a bod angen iddynt fwyta ffrwythau a llysiau er mwyn cael diet cytbwys.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ymarferwyr yn darparu gweithgareddau diddorol sydd yn cysylltu'n briodol â diddordebau'r plant yn ôl themâu addas. Yn ddiweddar iawn, mae'r ymarferwyr wedi cychwyn defnyddio trefn newydd o gynllunio sydd â ffocws priodol ar ddiwallu athroniaeth y cyfnod sylfaen. Mae'r cynlluniau hyn yn cychwyn adeiladu'n effeithiol ar brofiadau a dysgu blaenorol y plant. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr yn darparu'n ddigon systematig i alluogi bob plentyn i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, nid yw'r cynllunio yn sicrhau bod y plant yn ymarfer y medrau sy'n cael eu cyflwyno yn y tasgau ffocws, mewn gweithgareddau parhaus ac ar draws y meysydd dysgu.

Mae trefn y cwricwlwm yn darparu cydbwysedd priodol a chyfleoedd addas i ddatblygu’r rhan fwyaf o’r meysydd dysgu. Fodd bynnag, nid yw’r ymarferwyr yn cynllunio’n ddigon bwriadus i ddatblygu medrau corfforol plant trwy weithgareddau awyr agored rheolaidd. Mae gan yr ymarferwyr gynlluniau priodol sy’n gwneud defnydd addas o’r neuadd fawr yn ogystal â chyfleoedd perthnasol i ddefnyddio parc cyfagos er mwyn darparu profiadau gwerthfawr i’r plant.

Mae ymarferwyr yn cychwyn cynllunio cyfleoedd buddiol er mwyn i’r plant ddatblygu eu hunanhyder. Datblygiadau diweddar yw'r rhain sydd heb gael cyfle eto i wreiddio. Mae’r cynlluniau hyn yn cychwyn darparu ychydig iawn o weithgareddau pwrpasol er mwyn rhoi cyfleoedd addas i’r plant ddewis eu tasgau eu hunain. Mae’r ddarpariaeth yn cynnwys cyfleoedd priodol i’r holl blant ddatblygu parch tuag at ei gilydd er mwyn ffurfio perthynas dda â’u cyfoedion ac oedolion.

Agwedd effeithiol o brofiadau dysgu’r plant yw’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu’r Gymraeg. Mae’r oedolion yn defnyddio’r iaith yn effeithiol gan ei modelu’n llwyddiannus. Trwy gyfleoedd buddiol, mae bron pob un plentyn, beth bynnag bo’u cefndir, yn mwynhau siarad yr iaith ac yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llafar.

Mae’r cynlluniau’n canolbwyntio’n addas ar ddatblygu ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau a hanes Cymru. Rhoddir sylw cadarn i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a diwrnod Santes Dwynwen. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau priodol i ddatblygu parch plant tuag at gefndiroedd amlddiwylliannol. Darperir cyfleoedd gwerthfawr i’r plant ddatblygu dealltwriaeth o draddodiadau a dathliadau eraill, trwy ddysgu am y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Diwalli, er enghraifft. Mae'r gweithgareddau hyn yn helpu plant i ddatblygu dealltwriaeth gadarn o'r byd ehangach a’u hymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang o fewn cyd-destun Cymreig sy’n briodol i’w hoedran.

**Addysgu: Digonol**

Mae ymarferwyr wedi datblygu awyrgylch dysgu cefnogol, lliwgar ac ysgogol. Mae ganddynt ddealltwriaeth ymarferol addas o ofynion y cyfnod sylfaen. Drwyddi draw, maent yn hyrwyddo addysgu cadarn trwy sicrhau bod cyfleoedd addas i blant chwarae, ymchwilio a darganfod, fel rhan annatod o fywyd pob dydd y lleoliad. Maent yn deall pwysigrwydd darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ddysgu trwy brofiadau uniongyrchol ac yn trefnu gweithgareddau addas fel rhan o’r themâu. Er enghraifft, maent yn sicrhau cyfleoedd buddiol i’r plant ymuno â disgyblion yr ysgol gynradd gyfagos ar gyfer diwrnod Mrs Wishi Washi ac ymweliad gan deulu o ddinosoriaid.

Mae’r holl ymarferwyr yn modelu iaith yn dda iawn er mwyn datblygu medrau cyfathrebu’r plant. Mae hyn yn cael effaith nerthol ar safonau Cymraeg y rhan fwyaf o’r plant. Mae perthynas agos yn bodoli rhwng yr holl ymarferwyr a’r plant. Gwneir y defnydd gorau o’u harbenigedd wrth rannu cyfrifoldebau addysgu. Fodd bynnag, nid yw disgwyliadau’r ymarferwyr o’r hyn y gall y plant ei gyflawni yn ddigon uchel. Nid ydynt yn gosod amcanion dysgu clir ar ddechrau’r gweithgareddau er mwyn gwneud yn siŵr bod plant unigol yn cael eu herio’n ddigon effeithiol yn unol â’u galluoedd. Mae llawer o’r gweithgareddau’n ailadroddus. O ganlyniad, mae lleiafrif o’r plant yn

colli diddordeb yn y tasgau ac mae eu hymddygiad yn aflonyddus ac yn amharu ar lif y gweithgaredd a chynnydd cyffredinol y plant.

Er bod yr ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol, maent yn ymyrryd yn ddianghenraid ar adegau yn ystod y gweithgareddau ac yn gwneud gormod dros y plant. Nid ydynt yn sicrhau bod pob plentyn yn gwneud dewisiadau ac yn cymryd rhan yn y dysgu yn ddigonol trwy ddatblygu eu medrau annibynnol yn llwyddiannus. Yn ystod y cyfnodau hyn, ac yn enwedig pan nad yw'r gweithgareddau'n herio'r plant yn llawn, mae'r ymarferwyr yn defnyddio strategaethau addas er mwyn rheoli aflonyddwch.

Mae'r lleoliad yn datblygu gweithdrefnau priodol ar gyfer asesu. Yn dilyn hyfforddiant buddiol ar ddefnyddio proffil y cyfnod sylfaen, mae dealltwriaeth ymarferwyr o asesu yn datblygu'n briodol. Mae hyn wedi arwain at asesiadau manwl o gyrhaeddiad plant wrth iddynt ddechrau yn y lleoliad. Mae ymarferwyr yn cychwyn gwneud defnydd addas o'r wybodaeth hon er mwyn adnabod cryfderau ac agweddau penodol sydd angen eu datblygu ymhellach. Mae'r holl ymarferwyr ynghlwm â'r broses o gofnodi cyflawniadau'r plant yn ogystal â'u llwyddiannau dyddiol. Maent yn defnyddio arsylwadau yn briodol i greu cofnodion dysgu unigol defnyddiol. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio'r wybodaeth asesu yn ddigon effeithiol bob amser er mwyn cynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu. Yn ogystal, nid ydynt yn olrhain cynnydd y plant yn ddigon manwl i ddangos cynnydd ac i osod targedau heriol, yn enwedig ar gyfer y plant mwy abl.

Mae rhieni'n gwerthfawrogi'r cyfleoedd rheolaidd i gyfathrebu'n anffurfiol gydag ymarferwyr am gyflawniadau eu plentyn, cyn ac ar ôl y sesiynau. Mae'r adroddiadau sydd yn cael eu rhannu gyda'r rhieni a'r ysgol gynradd wrth i'r plant gychwyn yno, yn ddefnyddiol ac yn darparu trosolwg addas o'u cryfderau a'r ffordd ymlaen.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol**

Mae'r lleoliad yn gymuned hapus a chroesawgar lle mae iechyd a lles y plant yn flaenoriaeth. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer gofal a chymorth yn effeithio'n briodol ar ddatblygiad personol y plant. Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda, yn eu trin â pharch ac yn gwerthfawrogi eu hawliau a'u barn. Maent yn rhoi pwyslais priodol ar fyw bywyd iach, gan gynnwys bwyta bwyd llesol ac ymarfer corff rheolaidd. O ganlyniad, mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach yn gadarn.

Mae gan y lleoliad ddarpariaeth addas ar gyfer sicrhau datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol y plant. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cymdeithasol y plant yn ddigon effeithiol. Mae hyn yn cyfrannu at ymddygiad afreolus ymysg lleiafrif o'r plant ar adegau.

Mae ymwelwyr ac ymweliadau yn ymestyn profiadau'r plant yn effeithiol. Mae'r lleoliad yn ymweld â'r gymuned trwy deithiau o amgylch y pentref, y parc a llwybrau cerdded cyfagos. Mae'r defnydd o'r ardal leol yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y plant o'u cymuned yn llwyddiannus. Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ddweud diolch, ac yn dysgu cymryd eu tro yn briodol wrth fwyta ffrwythau ac yfed diod o gwmpas y bwrdd. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd effeithiol i'r plant ailgylchu bwyd, papur a phlastig

Mae ymarferwyr yn wyliadwrus wrth nodi plant sydd angen cymorth arbenigol. Maent yn cydweithio'n briodol â gwasanaethau cymunedol i ddarparu cefnogaeth pan fo angen. Mae trefniadau i gefnogi unrhyw blentyn sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gadarn.

Mae gan y staff gymwysterau addas a phrofiad da ac mae'r gymhareb oedolyn i blentyn yn ffafriol iawn. Maent yn ofalus iawn wrth oruchwylio'r plant yn enwedig wrth iddynt symud o'r neuadd i'r ystafell ddsbarth, oherwydd y grisiau sydd angen eu defnyddio. Mae asesiadau risg priodol yn cael eu gweithredu yn rheolaidd yn ôl y galw. Mae'r ymarferwyr yn ofalus wrth i'r plant gael eu casglu ac yn sicrhau eu bod o dan ofal eu rhieni neu gofalwr cyfarwydd. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn gadarn, ac nid ydynt yn achosi pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae'r lleoliad yn amgylchedd dysgu hapus. Mae ganddi ethos cynhwysol ac mae gan blant fynediad cyfartal i bob gweithgaredd. Mae ymarferwyr yn gefnogol ac mae hyn yn helpu i sicrhau bod plant yn teimlo'n ddiogel ac yn rhydd rhag unrhyw pryder gormodol.

Mae'r adnoddau wedi eu rhannu'n effeithiol rhwng y gweithgareddau parhaus a chyfleoedd i gyfoethogi'r dysgu. Mae'r adeilad yn darparu amgylchedd diogel ar gyfer dysgu. Mae arddangosfeydd o waith y plant yn dathlu eu cyflawniadau yn dda. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'i adnoddau yn yr adeilad i ddiwallu gofynion cwricwlwm y cyfnod sylfaen ac anghenion y mwyafrif o'r plant yn llwyddiannus. Mae'r brif ystafell a ddefnyddir ar gyfer addysgu'r plant yn fach iawn ac mae'r lefelau sŵn yn annerbyniol ar adegau. Mae hyn yn cyfrannu at amgylchedd afreolus ar adegau ac yn cyfyngu ar y cyfleoedd i blant fod yn annibynnol. Er bod yr arweinydd yn sicrhau bod adnoddau o fewn cyrraedd y plant, mae'r diffyg lle yn eu rhwystro rhag eu defnyddio'n rhwydd ac i symud yn rhydd o un ardal i'r llall.

Er nad oes gan y lleoliad fynediad i ardal allanol, mae ymarferwyr yn defnyddio'r parc lleol a'r neuadd fawr o fewn yr adeilad yn achlysurol er mwyn darparu cyfleoedd addas i'r plant ddatblygu eu medrau corfforol. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr yn ddefnyddio'r ardaloedd hyn yn ddigon effeithiol er mwyn datblygu medrau'r plant ar draws y meysydd dysgu, yn llawn ac yn gydlynol.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae gan yr arweinydd newydd weledigaeth glir sy'n sicrhau cyfeiriad cadarn i waith y lleoliad. Mae hi'n weithiwr egnïol sydd wedi ymdrechu'n llwyddiannus ers ei phenodiad i ddatblygu ei dealltwriaeth o sut i arwain y lleoliad i godi safonau dysgu ac addysgu. Mae'n gweithio'n agos gyda'r ymarferwyr i greu ethos addas, sy'n annog ac yn gwerthfawrogi gwaith tîm. Mae ei gweledigaeth yn gosod datblygiad y Gymraeg yn flaenoriaeth uchel, ac mae'n rhannu'r weledigaeth hon yn effeithiol trwy nifer o ffynonellau cyfathrebu gyda rhanddeiliaid allweddol. Mae'r arweinydd wedi datblygu perthynas gadarnhaol iawn gyda rhieni a'r gymuned, sy'n gwerthfawrogi'r ddarpariaeth yn fawr.

Mae'r arweinydd yn gweithio'n agos gydag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin er mwyn cyflwyno nifer o systemau newydd buddiol sydd yn cychwyn symud y lleoliad ymlaen. Mae hi'n cychwyn rhannu'r arferion hyn yn briodol gyda gweddill yr ymarferwyr i wella'u harferion proffesiynol. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau newydd ar gyfer cynllunio ac asesu cyrhaeddiad plant wedi sefydlu'n ddigonol hyd yma. O ganlyniad, nid yw'r arweinyddiaeth yn cael effaith ddigon cadarn ar wella ansawdd agweddau pwysig o'r ddarpariaeth.

Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn ymwybodol o flaenoriaethau'r lleoliad ar gyfer gwella a'u bod yn gweithio'n gyson i sicrhau hyn. Mae'r holl ymarferwyr yn cyfrannu syniadau buddiol wrth gynllunio gweithgareddau ac yn teimlo bod eu cyfraniadau'n cael eu gwerthfawrogi. Mae gan arweinwyr a rheolwyr ymwybyddiaeth briodol o flaenoriaethau cenedlaethol. Maent yn dechrau ystyried y ffordd orau o ddatblygu medrau plant yn systematig ar draws y meysydd dysgu, er mwyn bodloni anghenion gwahanol grwpiau.

Mae trefniadau rheoli perfformiad ymarferwyr, a gyflwynwyd yn ddiweddar, yn cychwyn adnabod cryfderau ac agweddau sydd angen eu datblygu. Mae'r arweinwyr yn defnyddio'r rhain yn dda i nodi anghenion cymorth, fel darparu mwy o amser ar gyfer cynllunio a chwblhau asesiadau. Mae'r hyfforddiant a'r gefnogaeth a drefnir yn cefnogi datblygiad proffesiynol yr arweinydd a'r staff yn briodol.

Mae'r pwyllgor rheoli, sydd yn cynnwys nifer o aelodau newydd, yn gefnogol iawn i waith y lleoliad. Er bod y gweithdrefnau hunanwerthuso a'r broses o gynllunio ar gyfer gwelliant yn newydd, maent yn rhoi gwybodaeth addas i'r pwyllgor rheoli am berfformiad y lleoliad ac yn sicrhau bod gofynion statudol yn cael eu hateb. Fodd bynnag, nid yw'r pwyllgor yn cwrdd yn ddigon rheolaidd er mwyn monitro effaith y ddarpariaeth yn fanwl i sicrhau gwelliannau ym medrau'r plant.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae dealltwriaeth yr arweinydd o gryfderau a gwendidau'r lleoliad yn datblygu'n briodol. Gyda chefnogaeth fuddiol yr awdurdod lleol, mae wedi sefydlu prosesau hunanarfarnu ffurfiol a systematig. Er mai datblygiad diweddar yw hyn, mae'r trefniadau'n canolbwyntio'n briodol ar werthuso'r ddarpariaeth ac yn ystyried barn ymarferwyr, rhieni a gofalwyr, yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin yn addas. Mae arfer yr arweinydd ar ddiwedd sesiynau o annog y plant i fynegi barn ynghylch eu profiadau dysgu, yn sicrhau bod cyfraniad pob unigolyn yn cael ei gynnwys yn briodol yn natblygiad y lleoliad. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau hunanarfarnu yn gwneud digon o ddefnydd o arsylwadau uniongyrchol er mwyn gwerthuso effaith yr addysgu ar safonau a medrau plant ar draws y meysydd dysgu. O ganlyniad, nid yw'r lleoliad yn rhoi sylw digon manwl i wella cyrhaeddiad plant ac nid yw'r gweithdrefnau wedi arwain eto at godi safonau a gwella agweddau pwysig o'r ddarpariaeth.

Mae cynllun gwella'r lleoliad yn ddogfen ddefnyddiol sy'n ystyried mwyafrif o'r meysydd sydd angen eu gwella ar gyfer addysgu a chynllunio'n fwriadus. Mae'r cynllun wedi'i strwythuro'n briodol yn ôl terfynau amser a chyfrifoldebau ymarferwyr. Fodd bynnag, nid yw'n ystyried costau er mwyn bodloni'r targedau a nodir i alluogi arweinwyr i gynllunio'n strategol ar gyfer gwelliant. Mae'r arweinydd yn monitro cynnydd yn rheolaidd ac yn paratoi adroddiad defnyddiol i'r pwyllgor rheoli. Fodd bynnag, nid yw'r cynllun yn cynnwys dangosyddion llwyddiant mesuradwy er mwyn

gwerthuso effaith y camau gweithredu ar gyrhaeddiad y plant. Yn gyffredinol, mae'r prosesau newydd sydd nawr yn eu lle, yn cychwyn dangos gwelliannau cadarnhaol mewn amser byr.

Mae'r lleoliad wedi gwneud cynnydd anghyson wrth ymateb i argymhellion yr arolygiad diwethaf ynglŷn â herio plant mwy abl a gwneud defnydd effeithiol o ddeilliannau asesiadau ar gyfer cynllunio'r ddarpariaeth. Yn ddiweddar, mae'r pwyllgor rheoli a'r arweinydd wedi dechrau mynd i'r afael yn fwy effeithiol â'r agweddau hyn.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae gan y lleoliad ystod briodol o bartneriaethau effeithiol. Maent yn effeithio'n gadarnhaol ar les plant ac yn cychwyn gwella ansawdd y profiadau dysgu. Mae partneriaeth gadarn yn bodoli gyda rhieni a gofalwyr. Maent yn gwerthfawrogi ansawdd y gofal a ddangosir gan ymarferwyr tuag at eu plant. Mae'r arweinydd yn eu hysbysu'n dda am lwyddiannau eu plant a'r hyn y maent yn ei ddysgu, trwy baratoi cylchlythyrau cynhwysfawr a gwybodaeth ar gyfryngau cymdeithasol. Yn ogystal, mae'r lleoliad yn rhoi gwybodaeth werthfawr i rieni am sut i gefnogi eu plentyn, er enghraifft er mwyn datblygu eu medrau yn y Gymraeg.

Mae'r lleoliad yn cysylltu'n briodol â'r ysgolion cynradd y mae'n ei bwydo, gan drosglwyddo gwybodaeth berthnasol am gefndir, cynnydd a chyraeddiadau'r plant. Mae'r plant yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ymweld â'r ysgol ar gyfer gweithgareddau ar y cyd ac mae athrawes yn ymweld â'r lleoliad er mwyn cynnal sesiynau canu a dweud stori. O ganlyniad, mae'r plant yn trosglwyddo'n ddiffwdan i'r ysgol gynradd ac yn ymsefydlu yno'n gyflym.

Mae gan y lleoliad bartneriaethau buddiol gyda'r gymuned. Er enghraifft, mae plant yn ymweld â'r parc lleol er mwyn ailgylchu bwyd. Mae partneriaeth ddefnyddiol wedi datblygu gyda'r awdurdod lleol sy'n sicrhau cefnogaeth fuddiol a mynediad i hyfforddiant gwerthfawr ar gyfer ymarferwyr am arferion y cyfnod sylfaen. Mae'r cyngor a'r arweiniad hwn yn dechrau cyfrannu'n bwrpasol at ymdrech y lleoliad i godi safonau a gwella'r ddarpariaeth. Mae'r cysylltiadau addas yn bodoli rhwng y lleoliad a Mudiad Meithrin. Mae'r arweinydd yn manteisio ar gefnogaeth weinyddol ac ariannol a roddir. Mae'n cydweithio'n effeithiol gyda'r swyddog datblygu er mwyn darparu profiadau addysgol buddiol mewn amgylchedd Gymreig.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd priodol o staffio ac adnoddau i gefnogi datblygiad plant. Mae gan yr holl ymarferwyr gymwysterau addas ac mae eu gwybodaeth am gwricwlwm y cyfnod sylfaen yn datblygu'n briodol drwy gefnogaeth fuddiol gan yr awdurdod addysg. Mae'r arweinydd yn gwneud defnydd priodol o drefniadau rheoli perfformiad er mwyn adnabod meysydd i'w datblygu. Mae'n gweithredu'n gyflym i sicrhau bod anghenion staff yn cael eu diwallu'r trwy hyfforddiant pwrpasol. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr wedi mynychu hyfforddiant penodol er mwyn eu cynorthwyo i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant yn effeithiol.

Mae trysorydd y pwyllgor rheoli yn sicrhau bod gwariant yn cael ei reoli'n ofalus i sicrhau bod y lleoliad yn parhau i fod yn gynaliadwy. Mae'r arweinydd yn rheoli'r

gyllideb yn effeithiol ac yn sicrhau bod gan y lleoliad gyflenwad digonol o adnoddau o ansawdd da.  Mae’r buddsoddiad diweddar mewn offer TGCh eisoes yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau llawer o’r plant.

Er bod cynnydd i’w weld yn ddiweddar mewn nifer o feysydd, nid yw’r cynllunio strategol wedi cael amser i sefydlu ac effeithio’n briodol ar y cynlluniau gwaith, yr asesu a’r ddarpariaeth.  O ganlyniad, mae safonau’r plant yn ddigonol ac felly mae'r lleoliad yn darparu gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

### Arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Dyfrig Wyn Ellis | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012 |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg |